COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 107

Amseru:

Teitl: Cronfa Gymunedol y Comisiynydd 2019

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Mae'r Comisiynydd wedi gwneud y penderfyniad i lansio cronfa gymunedol newydd y Comisiynydd ar gyfer 2019. Amcan y rhaglen yw cefnogi gweithredu blaenoriaethau Cynlluniau Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Ei nod yw ategu gweithgarwch sydd eisoes ar waith ar draws cymunedau Dyfed-Powys, o ran bodloni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Er mwyn cynorthwyo i fodloni'r blaenoriaethau hyn a chefnogi gweledigaeth ei Gynllun Heddlu a Throseddu, mae'r Comisiynydd ar gyfer Dyfed-Powys wedi sicrhau bod rhaglen ariannu ar gael i'r gymuned wneud cais ohoni.

Bydd y gronfa'n defnyddio £100,000 o'r cronfeydd wrth gefn o dan yr incwm NDORS sydd wedi'i neilltuo.

Argymhelliad:

Cymeradwyo a sicrhau bod £ 100k ar gael i gymunedau Dyfed-Powys i ymgeisio amdano o dan broses Cronfa Gymunedol y Comisiynydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 12/04/2019**